SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN - CENNAU


Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae’r rhywogaethau sydd wedi’u rhestru yn y tabl hwn wedi’u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae’n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae’r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella’r rhywogaethau a’r mathau o gynefinoedd sydd wedi’u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o’r fath. Drwy ddiogelu’r rhywogaethau a’r cynefinoedd hyn, gwella’r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i’r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

Defnyddiwyd pob llun gyda chaniatâd. Sylwch fod rhai wedi'u tynnu gyda chwyddwydr agos.

| Rhywogaethau Adran 7 | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Bellicidia incompta* (*Bacidia incompta*)<br><br>© Alan Orange | • **Cynefin cysylltiedig** Boncyffion hen goed ‘sylfaenol’, yn enwedig llwyfenni (*Ulmus*), yn aml ar ffurf llinellau sy'n ymgordeddu.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2020 - Mewn perygl difrifol<br>• Wedi’i ddarganfod ar ddwy goeden castanwydd ym Mharc Dinefwr yn hydref 2013 ac ar un arall yn 2022.<br>• **Bygythiadau:** Gan fod llwyfenni aeddfed bron wedi'u colli'n llwyr o dirlun Cymru, mae perygl i'r rhywogaeth hon ddarfod yn llwyr o Gymru. | • Nodi a hyrwyddo cofnodion o lwyfenni aeddfed i'w harolygu gan arbenigwyr cennau.<br>• Llwyfen aeddfed ym mynwent Cwrt Henri – ymchwilio. |
| *Buellia hyperbolica*<br><br>©Alan Orange | • **Cynefin cysylltiedig:** Hen goed derw ar barcdir.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 - Mewn perygl<br>• Parc Ceirw Glan Brân, Cynghordy - cofnodwyd ddiwethaf yn 2004 ar hen goeden dderw ar dir pori coediog.<br>• Parc Dinefwr – cofnodwyd ddiwethaf yn 2022. Hon oedd y boblogaeth fwyaf a gofnodwyd ym Mhrydain.<br>• **Prinder:** prin yn genedlaethol<br>• **Bygythiadau:** Mae sensitifrwydd i amonia yn golygu bod y rhywogaeth hon yn agored i niwed pan eir heibio i'r Lefel Gritigol ar gyfer amonia yn sgil arferion amaethyddol dwys. | • Nodi safleoedd parcdir i'w harolygu.<br>• Ailarolygu Parc Ceirw Glan Brân os oes modd. |
| *Caloplaca herbidella*<br><br>©Ray Woods | • **Cynefin cysylltiedig:** Ar hen goed ar dir pori coediog.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 - Bregus<br>• Parc Ceirw Glan Brân, Cynghordy – cofnodwyd ddiwethaf yn 1995.<br>• **Prinder:** prin yn genedlaethol<br>• **Bygythiadau:** Mae sensitifrwydd i amonia yn golygu bod y rhywogaeth hon yn agored i niwed pan eir heibio i'r Lefel Gritigol ar gyfer amonia yn sgil arferion amaethyddol dwys. | • Nodi safleoedd parcdir i'w harolygu.<br>• Ailarolygu Parc Ceirw Glan Brân os oes modd. |
| *Scytinium fragrans* (*Collema fragrans*) | • **Cynefin cysylltiedig:** rhisgl sy'n llawn maetholion, yn enwedig llwyfenni a sycamorwydd, yn aml yn gysylltiedig â maetholion sy'n llifo mewn dŵr ffo o dyllau pydredd a phren sy'n dadfeilio ar y boncyff uwchben.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 - | • Arolygu safleoedd addas – gan gynnwys chwiliad trylwyr wedi'i dargedu o Goed y Castell<br>• Dim ond ar ôl cynnal archwiliadau gofalus am *Collema fragrans* y dylid gwneud unrhyw waith i dorri coed neu eu torri i lawr. |

| Rhywogaethau Adran 7 | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>© Alan Orange | wedi diflannu o'r rhanbarth?<br>• Parc Dinefwr – Coed y Castell – cofnodwyd ddiwethaf ym Mharc Dinefwr yn 2022<br>• **Bygythiadau:** Ac ystyried bod llwyfenni aeddfed bron wedi'u colli'n llwyr o dirlun Cymru, nid ydym yn sicr a yw'r rhywogaeth hon yn goroesi yng Nghymru. | |
| *Graphina pauciloculata*<br><br>©Alan Hale | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae wedi'i gyfyngu i risgl llyfn coed llydanddail, ar y canghennau'n bennaf, mewn coetiroedd hynafol cysgodol iawn a hen ffen helyg, mewn ardaloedd sy'n cael llawer o law, a lle mae'r tymheredd yn gyson drwy'r flwyddyn. Mae'r safleoedd fel arfer o fewn clyw dŵr sy'n llifo, yn wlyb iawn, yn gyson laith, ond mae yno olau eithaf da, ac nid yw'r rhywogaeth yn goddef llawer o gysgod. Nid yw'n hoffi swbstrad alcali ac mae'n ymddangos ar risgl asid wedi'i drwytholchi.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 - Mewn perygl<br>• 2014 – canfuwyd mewn dyffryn ochr i'r gogledd o Abergorlech.<br>• Mae wedi'i wasgaru drwy Gwm Marlais (Coedwig Brechfa) sydd wedi'i restru fel SoDdGA arfaethedig gan CNC, a dylai pennu'r ardal yn SoDdGA fod o gymorth i'r rhywogaeth (ac i'r holl gennau Lobarion yno)<br>• **Prinder:** prin yn genedlaethol. Yn endemig i Brydain ac Iwerddon - nid yw'n bodoli yn unman arall yn y byd.<br>• **Bygythiadau:** ??? | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Lecanora sublivescens*<br><br>©Ray Woods | • **Cynefin cysylltiedig:** Yng Nghymru fe'i darganfyddir amlaf ar foncyffion o goed derw hynafol sydd wedi'u goleuo'n dda ac yn anaml ar goed ynn, fel arfer ar goetir pori neu mewn caeau agored neu mewn gwrychoedd.<br>• **Statws presennol:** Rhestr data Coch Cymru 2010 – Bron dan fygythiad<br>• 1985–95 Cynghordy, Dinefwr, llynnoedd Talyllychau.<br>• 2010, Dinefwr. Roedd y goeden y cafwyd hyd i'r cen arni wedi disgyn a'r cen wedi'i golli erbyn 2013, ac ystyrir bellach ei fod wedi diflannu o Ddinefwr.<br>Ystyrir bod y poblogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, yn gyffredinol oherwydd eu helaethrwydd ym Mhrydain o gymharu â gweddill y byd.<br>• **Bygythiadau:**<br>- Colli coed hynafol trwy dorri coed ac wrth iddynt ddisgyn yn naturiol, planhigion dringo yn bwrw cysgod drostynt.<br>- Lledaenu slyri yn gorfaethu rhisgl, defnyddio gwrtaith artiffisial<br>- Llygryddion o'r atmosffer ar ffurf glaw asid a gorfaethu yn sgil amaethu dwys.<br>- Y newid hinsawdd: gall unrhyw gynnydd mewn glawiad yn sgil newid hinsawdd hefyd achosi bygythiad iddo am ei fod yn ymddangos fel pe bai'n osgoi ardaloedd glawiad uchel. | • Arolygu ardaloedd parcdir addas yn Nyffryn Tywi ar gyfer y rhywogaeth hon. |

| Rhywogaethau Adran 7 | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
| --- | --- | --- |
| *Parmelinopsis horrescens*<br><br>©Ray Woods | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae'n well ganddi risgl coed llyfn a niwtral–asidig, fel bedw, cerdin, gwern a derw ifanc mewn coetiroedd llaith a chysgodol.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 – Bron dan fygythiad<br>• Cwmdu – 2004, 2014 – dyffryn ochr i'r gogledd o Abergorlech.<br>Ystyrir bod y poblogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, yn gyffredinol oherwydd eu helaethrwydd ym Mhrydain o gymharu â gweddill y byd.<br>Mae'r cen hwn ar ymyl ogleddol ei chwmpas yng Nghymru, a gallai Cymru gynnwys dros hanner y boblogaeth ym Mhrydain.<br>• **Bygythiadau:**<br>- Mae sensitifrwydd i amonia yn golygu bod y rhywogaeth hon yn agored i niwed pan eir heibio i'r Lefel Gritigol ar gyfer amonia yn sgil arferion amaethyddol dwys.<br>- Gall lledaeniad coed bytholwyrdd trwchus a phlanhigion dringo (eiddew) effeithio arno mewn rhai safleoedd. | • Arolygu clystyrau addas o goed bedw aeddfed mewn ardaloedd cynefin 'ffridd' yn Sir Gaerfyrddin. |
| *Rinodina isidiodes*<br><br>© Alan Orange | • **Cynefin cysylltiedig:** Coed aeddfed, coetir hynafol.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 - Dan fygythiad yn genedlaethol<br>Ystyrir bod y poblogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, yn gyffredinol oherwydd eu helaethrwydd ym Mhrydain o gymharu â gweddill y byd.<br>• Cynghordy, Llangathen 1982, Dan y Parc 1995, Dinefwr 2022.<br>• **Bygythiadau:** | • Arolygu safleoedd addas. |
| *Toninia sedifolia*<br><br>©Ray Woods | • **Cynefin cysylltiedig:** Fe'i gwelir yn weddol aml ar bridd tywodlyd calchaidd, er enghraifft, yn yr holltau rhwng creigiau calchfaen ac ar silffoedd creigiau mewn ardaloedd arfordirol. Fe'i gwelir hefyd ymhlith bryoffytau ar dwyni tywod lle ceir llawer o gregyn wedi i gytyfiant ddod i ben a chyn y gall planhigion mwy ymledu. Mae cwningod yn pori ar nifer o'r safleoedd. Yn anaml ar galchfaen mewndirol.<br>• Trwyn Wharley a Charreg Cennen – 1986 a 2010.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 – Pryder lleiaf<br>• **Bygythiadau:** ??? | Yn debygol o gael ei dynnu oddi ar restr A7?<br>PCBB |
| *Usnea articulata*<br><br>©Sam Bosanquet | • **Cynefin cysylltiedig:** Ceir tri phrif gynefin: ar ddrain gwynion mewn mannau gwyntog; ar ochr gysgodol planhigfeydd coed llarwydd; ac ar frig coed helyg ar dir llaith. Y mannau eraill lle y'i cofnodwyd yw ar goed deri a cherdin. Cryfder y gwynt yw'r ffactor cyffredin.<br>• Mae ei choesynnau heglog, blewynnaidd a chlymog, nad ydynt fel arfer yn gysylltiedig, ac a all fod hyd at fetr o hyd, yn ymchwyddo bob hyn a hyn ar hyd y prif ganghennau i greu llinynnau gwyrdd/llwyd bychain sy'n debyg i selsig ac sydd oddeutu 3mm ar eu traws.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 - Bregus<br>Ystyrir bod y poblogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, yn gyffredinol oherwydd eu helaethrwydd ym Mhrydain o gymharu â gweddill y | • Mwy o gofnodion i sefydlu ei gwasgariad.<br>• Defnyddio'r rhywogaeth hon i ymgysylltu â'r cyhoedd gan ei bod yn hawdd ei hadnabod - anfon taflen i'r ysgolion/undebau ffermwyr ac ati. |

| Rhywogaethau Adran 7 | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | byd.<br>• Wedi'i chofnodi ar fwy na 35 o safleoedd yn y sir bellach yn sgil cynnydd mewn gwybodaeth ac ymdrechion i'w chofnodi.<br>• **Bygythiadau:** Yn sensitif iawn i sylffwr deuocsid | |
| *Usnea florida*<br><br>©Alan Hale | • **Cynefin cysylltiedig:** Mae'n ffurfio cytrefi melynwyrdd crwn ac unionsyth, sy'n debyg i lwyni, ar frigau a changhennau llai coed a llwyni, ac weithiau ar bren ffensys a chlwydi.<br>• Dros 40 o gofnodion yn y sir ers 2000.<br>• **Statws presennol:** Rhestr Data Coch Cymru 2010 – Pryder lleiaf<br>Mae bron hanner poblogaeth Prydain o'r rhywogaeth hon i'w gael yng Nghymru.<br>• **Tueddiadau:** Dyma rywogaeth sy'n sensitif i nitrogen, sy'n prinhau'n gyflym yn ne-orllewin Lloegr ac yn rhannau o Gymru<br>• **Bygythiadau:** Mae sensitifrwydd i amonia yn golygu bod y rhywogaeth hon yn agored i niwed pan eir heibio i'r Lefel Gritigol ar gyfer amonia yn sgil arferion amaethyddol dwys. | |
| Casgliadau o lobarion<br>(Casgliad: Nifer o rywogaethau nodweddiadol a chanddynt fel arfer ofynion cyffredin o ran ecoleg neu gynefin)<br><br>*Lobaria pulmonaria*<br>©Ray Woods | • **Cynefin cysylltiedig:** Coed gyda rhisgl ychydig yn asidig neu alcalïaidd fel hen goed derw, ynn, sycamorwydd, helyg, criafol, a chyll.  Coetiroedd lle ceir gorchudd parhaus a choed hen-dwf.<br>• **Statws presennol:**<br>Cofnodion ar gyfer *Lobaria pulmonaria* o dri safle: Dinefwr, rhodfa dderw Talyllychau ac Abaty Hendy-gwyn.<br>• Cafodd *Agonimia octospora* ei gofnodi ar 15 o goed ym Mharc Dinefwr.<br>• Dylid asesu cytrefi Lobarion datblygedig sy'n cynnwys rhywogaethau *Sticta, Nephroma* ac ati yng Nghwm Marlais (Coedwig Brechfa) ac ym Mhont-felin-gat (GFGC) ar gyfer hysbysiad SoDdGA (mae Cwm Marlais yn gymwys).<br>• **Bygythiadau:**<br>- Mae sensitifrwydd i amonia yn golygu bod y rhywogaeth hon yn agored i niwed pan eir heibio i'r Lefel Gritigol ar gyfer amonia yn sgil arferion amaethyddol dwys. Mae llawer o enghreifftiau o'r Lobarion yng Nghymru bellach yn dlawd o ran rhywogaethau.<br>- Cael gwared â choed hen-dwf<br>- Effaith gysgodol is-dyfiant trwchus neu dwf prysgwydd, gan gynnwys rhywogaethau ymledol fel rhododendron. | • Angen mwy o gofnodion i sefydlu gwasgariad<br>http://wales-lichens.org.uk/s42-communities/lobarion-community |
| Casgliadau metaloffyt<br>(Casgliad: Nifer o rywogaethau nodweddiadol a chanddynt fel arfer ofynion cyffredin o ran ecoleg neu gynefin) | • **Cynefin cysylltiedig:** Ceir cofnodion ar gyfer rhywogaethau o'r casgliad hwn mewn dau fwynglawdd plwm segur yn SoDdGA Rhandir-mwyn – Mwyngloddfa Nant-y-mwyn.<br>Mae goroesiad cennau metaloffyt bellach bron yn gwbl ddibynnol ar gadwraeth hen safleoedd mwyngloddio metel.<br>• **Statws presennol:** Mae'r nodwedd cymhwyso ac a hysbyswyd ar gyfer y SoDdGA ym Mwyngloddfa Nant-y-mwyn mewn cyflwr ffafriol (asesiad sylfaenol safleoedd gwarchodedig CNC 2020)<br>• **Bygythiadau:** adfer hen safleoedd mwyngloddio metel. | |